# Uned 22: Cynhyrchu Gwartheg Eidion

**Côd yr Uned:** M/600/9581

**FfCC Lefel 3:** BTEC Cenedlaethol

**Gwerth o ran credydau:** 10

**Oriau dysgu dan arweiniad:** 60

## Nod a diben

Nod yr uned hon yw cyflwyno i'r dysgwyr sgiliau cynhyrchu gwartheg eidion a dealltwriaeth o sut gellir eu defnyddio yn ymarferol. Mae'r uned wedi'i dylunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr mewn canolfannau sydd am symud ymlaen i'r sector neu i addysg bellach.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae materion bwyd yn flaenoriaeth uchel ar agenda'r Llywodraeth ac mae angen cynyddol ar y diwydiant amaethyddiaeth am weithlu medrus i gynhyrchu cyflenwad bwyd y wlad. Mae oedran cyfartalog gweithlu amaethyddol y Deyrnas Unedig wedi codi ac mae bellach bron â chyrraedd 60.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar hyfforddi a datblygu gweithlu medrus mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, bydd y dysgwyr yn datblygu ac yn gwella eu sgiliau ymarferol ar fferm fasnachol.

Yn ail, ac yr un mor bwysig, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau monitro menter a dadansoddi perfformiad busnes yn feirniadol trwy gyflawni tasgau ymarferol, cofnodi gwybodaeth a dadansoddi ffigurau perfformiad data am yr o wartheg er mwyn nodi cryfderau a gwendidau. Trwy gydol yr uned bydd angen i'r dysgwyr weithio'n effeithiol fel aelod o dîm, weithiau mewn grwpiau a addysgir ac weithiau ar ddyletswydd ar fferm neu brofiad gwaith.

Bydd gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn cael eu pwysleisio ym mhob sesiwn ymarferol.

## Deilliannau dysgu

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:**

1 Wybod am y systemau cynhyrchu gwartheg eidion a ddefnyddir yn y Deyrnas Unedig

2 Deall egwyddorion iechyd a bridio gyr sugno

3 Gallu cyflawni sgiliau stoc eidion cyffredin

4 Gallu cwblhau a defnyddio cofnodion rheoli gwartheg eidion.

## Cynnwys yr uned

### 1 Gwybod am y systemau cynhyrchu gwartheg eidion a ddefnyddir yn y Deyrnas Unedig

*Bridiau gwartheg eidion a'u nodweddion:* nodi bridiau brodorol a chyfandirol; terminoleg gwartheg eidion (ee anifeiliaid cyfan, bustych, storio, ffurfiad, hybrid, digorn, canran lladd - ko%, brithder); aeddfedrwydd cynnar a hwyr; nodweddion tyfu (ee effaith rhyw); nodi darnau cig anifail

*Mathau o systemau cynhyrchu:* dwys (ee eidion grawnfaeth); lled-ddwys (ee eidion silwair, 18-24 mis, systemau storio); helaeth (ee eidion sugno); targedau ar gyfer systemau (ee cyfraddau tyfu, cyfraddau pesgi byw dyddiol (DLWG), pwysau gorffen, trosi bwyd); gofynion y farchnad; gwerthu pwysau byw a phwysau marw; dosbarthu a graddio carcasau; problemau iechyd cysylltiedig â systemau gwartheg eidion; lletya a systemau trin; lles a chodau ymarfer.

### 2 Deall egwyddorion iechyd a bridio gyr sugno

*Cylchred gynhyrchu a iechyd gyr:* dewis amser lloia a diddwyno; cylchred oestrws; sgôr cyflwr corff buwch; gofynion maeth; iechyd gyr a chlefydau

*Rheoli bridio:* dewis brîd; dethol tarw a buwch (ee defnyddio Gwerthoedd Bridio Bras - EBV, dehongli data bridio); rheoli lloia; rheoli gwasanaethu naturiol ac ymhadu artiffisial (AI) ee nodi rhidiad, lloia cywasgu a thrin y gylchred oestrws yn artiffisial, diagnosio beichiogrwydd (PD); problemau gydag ail-fridio

### 3 Gallu cyflawni sgiliau stoc eidion cyffredin

*Tasgau lloi:* trin a ffrwyno lloi (ee trin, tymheredd, penffrwyn); arwyddion iechyd; digornio; tethi ychwanegol; tag clust; brechu; drensio; dosio; tiwb stumog; disbaddu; porthi

*Tasgau anifeiliaid mawr:* pwyso a chofnodi; symud; dosio; sgôr cyflwr corff - BCS; arwyddion iechyd; brechu; pigiad; dethol ar gyfer lladd (ar gyfer cig); iechyd a diogelwch; porthi; cyfraddau pori a stocio; lletya

### 4 Gallu cwblhau a defnyddio cofnodion rheoli gwartheg eidion

*Cofnodion deddfwriaethol:* pasbortau; meddyginiaeth filfeddygol; symud; stoc marw

*Cofnodion perfformiad:* pwyso; porthi (ee swm, gwirio stoc porthiant, cyfraddau pesgi byw dyddiol (DLWG)); tueddiadau'r farchnad (ee prisiau, amseru, graddau carcas); costau uned cynhyrchu a chymharu maint gros

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae’r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

| **Meini prawf asesu a graddio** | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i’r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll1 nodi nodweddion bridio gwartheg eidion penodol | T1 monitro twf a iechyd mewn system gwartheg eidion benodol | Rh1 nodi cryfderau a gwendidau system gwartheg eidion benodol ac awgrymu meysydd ar gyfer gwella |
| Ll2 disgrifio systemau cynhyrchu gwartheg eidion penodol | | |
| Ll3 disgrifio gofynion y farchnad a chyfleoedd marchnad ar gyfer systemau cynhyrchu gwartheg eidion cyffredin | | |
| Ll4 egluro sut mae cynhyrchu llo sugno [MC, DM] | T2 cyflwyno awgrymiadau ar gyfer gwella system benodol o gynhyrchu lloi sugno eidion, gan ddefnyddio EBVs [MC, DM] | |
| Ll5 esbonio'r ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad gyr sugno | | |
| Ll6 cwblhau asesiad risg perthnasol i weithdrefnau stoc eidion arferol | | Rh2 ar gyfer system gwartheg eidion benodol, cynhyrchu costau uned cynhyrchu a nodi meysydd i'w gwella. |
| Ll7 cyflawni gweithdrefnau stoc eidion arferol i fodloni amcanion penodol [GT, CE, HR] | | |
| Ll8 casglu a defnyddio data rheoli gwartheg eidion [YA] | T3 cynhyrchu terfyn gros ar gyfer system gwartheg eidion benodol. | |
| Ll9 cwblhau cofnodion rheoli gwartheg eidion yn unol â gofynion deddfwriaeth berthnasol | | |

**SPDM:** Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau o'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

| | |
|---|---|
| **Allwedd** | YA - ymholwyr annibynnol<br>MC - meddylwyr creadigol<br>DM - dysgwyr myfyriol<br>GT - gweithwyr tîm<br>HR - hunan-reolwyr<br>CE - cyfranogwyr effeithiol |

 © Pearson Education Limited 2019

# Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

## Cyflwyno

Wrth gyflwyno'r uned hon bydd angen asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig ac ymweliadau â chasgliadau addas. Gallai gysylltu â lleoliadau profiad gwaith.

Anogir y canolfannau i integreiddio sesiynau theori ac ymarferol lle bynnag y bo'n bosibl a defnyddio fferm y ganolfan ei hun, ynghyd â chysylltiadau â chyflogwyr a busnesau lleol perthnasol i'r uned hon.

Mae'n hanfodol bod peth gwybodaeth ymarferol ac ariannol am y fferm ar gael yn hawdd, gan barchu'r angen am gyfrinachedd gyda busnesau lleol.

Dyluniwyd yr uned i wella sgiliau ymarferol y dysgwyr ynghyd â datblygu eu dadansoddi beirniadol a'u sgiliau myfyriol, yn enwedig lle ystyrir perfformiad menter. Gallai hyn fod ar ffurf adborth defnyddiol i gyflogwr neu reolwr fferm sy'n ganlyniad cadarnhaol o'r ddeutu.

Dylai sesiynau theori adeiladu ar sesiynau ymarferol er mwyn ehangu gwybodaeth dysgwyr am nifer o'r tasgau arferol maent yn eu cyflawni. Dylai'r tiwtoriaid benderfynu a gyflwynir y sesiynau theori hyn cyn neu wedi'r sesiynau ymarferol. Dylai'r dysgwyr hefyd ymweld â mentrau eidion perthnasol, megis ffermydd, lladd-dai, marchnadoedd, melinau porthiant a chanolfannau bridio lleol.

Rhaid i waith tîm a iechyd a diogelwch fod yn rhan annatod o bob sesiwn.

Dylai deilliant dysgu 1 gynnwys ymweliad â marchnad leol gydag amrediad eang o'r bridiau eidion sydd ar gael. Yn yr un modd, gall y dysgwyr gael profiad o wahanol systemau gwartheg eidion mewn sesiynau theori a hefyd drwy ymweld â ffermydd lleol.

Bydd deilliant dysgu 2 yn cynnwys cysylltiadau â gyr sugno neu system debyg. Lle nad oes un gan fferm y ganolfan ei hun, bydd angen i'r tiwtoriaid sefydlu cysylltiadau gydag un yn lleol.

Mae deilliant dysgu 3 yn ymarferol yn bennaf. Rhaid glynu'n fanwl at ofynion iechyd a diogelwch a dylai gynnwys mesurau bioddiogeledd hefyd. Gellid asesu'r dysgwyr ar eu profiad gwaith neu wrth gyflawni dyletswyddau ar fferm y ganolfan ei hun.

Bydd deilliant dysgu 4 yn cael ei gyflwyno yn rhan olaf y rhaglen a dylai ffurfio crynodeb o'r hyn a ddysgwyd hyd yma. Bydd mynediad i gofnodion fferm yn angenrheidiol.

## Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae'r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai'n angenrheidiol i ddysgwr arferol** gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'n **ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni'r gwerth o ran credydau.**

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys yr asesiad) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

| Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir |
| --- |
| Cyflwyniad a throsolwg o'r uned. |
| **Aseiniad 1: Bridiau Eidion a Systemau** (Ll1, Ll2, Ll3, T1, Rh1) a sesiwn friffio. |
| Sesiwn theori: materion lles a chodau ymarfer, materion diogelwch, bridiau eidion, patrymau tyfu, bridiau ar gyfer systemau cynhyrchu. |
| Sesiwn theori: targedau cynhyrchu ar gyfer systemau eidion, porthi, materion iechyd a chlefyd, gofynion maeth. |
| Sesiynau ymarferol: adnabod bridiau, ymweld â marchnad a lladd-dy |
| **Aseiniad 2: Cynhyrchu Eidion Sugno** (Ll4, Ll5, T2) a sesiwn friffio |
| Sesiwn theori: cylchred gynhyrchu gwartheg sugno, amseru lloia, iechyd a chlefyd, maeth a phori |
| Sesiwn theori: bridio a gwella gan ddefnyddio gwerthoedd bridio bras (EBV), y gylchred oestrws, mynegai lloia, problemau ffrwythlondeb, technegau cydamseru rhidiad, diagnosio beichiogrwydd. |
| Sesiwn ymarferol: arwyddion iechyd, cydamseru rhidiad, profi beichiogrwydd, ymweld ag unedau sugno. |
| **Aseiniad 3: Tasgau Stoc Eidion Arferol** (Ll6, Ll7) a briffio. |
| Sesiwn theori: brechu ac imiwnedd, lletya, cyfraddau stocio. |
| Sesiwn ymarferol: tasgau lloi ac oedolion sy'n cynnwys gofalu am lo newyddanedig, trin, digornio, tynnu teth sbâr, tagio clustiau, brechu, pwyso, drensio, sgorio cyflwr corff, dethol ar gyfer cigyddio, pori |
| **Aseiniad 4: Perfformiad Menter Gwartheg Eidion** (Ll8, Ll9, T3, Rh2) a briffio |
| Sesiwn theori: cofnodion deddfwriaeth, lles, iechyd a diogelwch |
| Sesiwn theori: cofnodion perfformiad, graddau carcas, gofynion y farchnad, costau cynhyrchu. |
| Sesiwn ymarferol: pwyso a chofnodi, monitro cyfraddau tyfu, ymweld ag unedau eidion |
| Adolygu'r uned |

 © Pearson Education Limited 2019

## Asesu

Ar gyfer Ll1, rhaid i'r dysgwyr allu nodi bridiau eidion brodorol a chyfandirol a ddefnyddir yn systemau cynhyrchu eidion y Deyrnas Unedig, ynghyd â'r traws-fridiau amrywiol. Gallai'r dystiolaeth fod yn ddisgrifiad ysgrifenedig, yn gyflwyniad neu'n brawf. Disgwylir hefyd i'r dysgwyr ddisgrifio nodweddion amrywiol y bridiau hyn.

Mae angen i'r dysgwyr ddeall y nifer o systemau eidion gwahanol sy'n bodoli, ac ar gyfer Ll2 mae angen iddynt ddeall y cysyniadau megis aeddfedrwydd cynnar a hwyr a thargedau cynhyrchu ar gyfer y systemau gwahanol. Ar gyfer Ll3, rhaid i'r dysgwyr ddisgrifio'r prif ofynion maeth a iechyd ar gyfer systemau gwartheg eidion penodol. Dylent hefyd nodi'r symiau o borthiant y pen y dydd ynghyd â'r mesurau ataliol iechyd arferol sydd yn eu lle mewn unedau gwartheg eidion. Ar gyfer Ll4, rhaid i'r dysgwyr ddisgrifio, ar gyfer system benodol, amseriad ymhadu a rheoli buwch sugno hyd nes iddi loia a magu'r llo. Ar gyfer Ll5, dylai'r dysgwyr restru'r ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad buwch sugno a chynnwys maeth, yr amgylchedd a lletya.

Ar gyfer Ll6, rhaid i'r dysgwyr gwblhau o leiaf ddau asesiad risg cyn cyflawni tasgau stoc eidion. Gallai un asesiad fod ar gyfer tasgau stoc lloi ac un ar gyfer tasgau stoc eidion llawn dwf. Dylai'r holl ddysgwyr ddefnyddio'r un templed. Gellir asesu Ll7 yn ystod sesiynau ymarferol stoc eidion perthnasol ac mae angen i'r tiwtoriaid sicrhau bod nifer o dasgau wedi cael eu cynnwys fel y gall y dysgwyr gael profiad eang. Ar gyfer Ll8, mae angen i'r dysgwyr gasglu a defnyddio data rheoli gwartheg eidion. Ymhlith yr enghreifftiau y gellid eu defnyddio mae cyfraddau tyfu, cyfrifiadau pesgi byw dyddiol, fformiwla neu addasiadau i ddognau. Ar gyfer Ll9, mae angen i'r dysgwyr gwblhau cofnodion rheoli gwartheg eidion yn unol â gofynion deddfwriaethol, er enghraifft ceisiadau am basbort. Mae deunydd defnyddiol ar gael o Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain. Gallai dogfennaeth arall gynnwys cofnodion symud megis wrth anfon anifeiliaid i'w lladd neu i'r farchnad.

Ar gyfer T1, rhaid i'r dysgwyr fonitro twf a iechyd mewn system gwartheg eidion benodol. Rhaid i'r tiwtoriaid ddewis amseriad a chyfyngiadau amser yr asesu'n ofalus. Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad i gofnodion fferm. Dylid gofalu sicrhau hefyd bod y monitro'n gyfartal, gallai rhai dysgwyr ddewis gwartheg llawn dwf i'w monitro, lle byddai llai o faterion iechyd i'w monitro nag wrth fagu llo. Ar gyfer T2, rhaid i'r dysgwyr ddeall sut mae gwerthoedd bridio bras (EBV) yn gweithio a gallu dewis teirw sy'n debygol o wella carcas neu nodweddion tyfu yr anifeiliaid gorffenedig. Byddai'n ddymunol petai'r tiwtor yn dewis gyr sugno lle na ddefnyddir gwerthoedd bridio bras (EBV). Ar gyfer T3, rhaid i'r dysgwyr gynhyrchu maint gros ar gyfer system gwartheg eidion benodol. Dylent gyflwyno'r maint gros yn gywir, a chynnwys manylion y ffigurau a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo, er enghraifft lle maent yn nodi'r allbwn/gwerthiannau dylent nodi'r pris gwerthu y seiliwyd eu cyfrifiadau arno. Ceir enghreifftiau amrywiol i arwain y dysgwyr yn y data cyhoeddedig y cyfeirir ato yn y rhestr ddarllen ddangosol.

Ar gyfer Rh1, dylai'r dysgwyr fod yn ddigon cyfarwydd â system gwartheg eidion benodol. Gallai hyn fod yn un o'u profiad gwaith diweddar, menter y ganolfan ei hun, neu un gartref. Rhaid i'r dysgwyr geisio nodi'r holl ffactorau perthnasol megis iechyd a chlefydau, lletya a'r amgylchedd, maeth, lles, a mewnbwn llafur. Mae angen iddynt nodi cryfderau a gwendidau'r system gwartheg eidion ac awgrymu gwelliannau. Ar gyfer Rh2, dylai'r dysgwyr ddewis eu system eu hunain o dan arweiniad y tiwtor. Gallai hyn ysgogi diddordeb a gallai ddarparu adborth defnyddiol i gyflogwyr neu reolwyr fferm. Gallai'r tiwtoriaid hefyd ystyried sut y cyflwynir tystiolaeth a chysylltu hyn â'r meysydd cyfathrebu o fewn y Sgiliau Swyddogaethol. Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad i wybodaeth am fferm.

## Rhaglen aseiniadau a awgrymir

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll1, Ll2, Ll3, T1, Rh1 | Bridiau Gwartheg Eidion a Systemau | Rydych i nodi bridiau ar gyfer systemau gwartheg eidion penodol, monitro ac asesu sut cânt eu porthi a’u cadw'n iach, a nodi meysydd ar gyfer gwella mewn system gwartheg eidion. | Arsylwi ymarferol ac asesu.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig. |
| Ll4, Ll5, T2 | Cynhyrchu Eidion Sugno | Disgrifio rheoli gyr sugno o adeg lloia hyd at gylchred gynhyrchu gyfan ac awgrymu sut gellid gwneud gwelliannau gan ddefnyddio gwerthoedd bridio bras (EBV). | Arsylwi ymarferol ac asesu.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig |
| Ll6, Ll7 | Tasgau Stoc Eidion Arferol | Cyflawni tasgau stoc eidion penodol dros gyfnod o amser mewn modd diogel. | Arsylwi ymarferol ac asesu.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig. |
| Ll8, Ll9, T3, Rh2 | Perfformiad Menter Eidion | Ar gyfer system gwartheg eidion benodol, dylech gynhyrchu data corfforol ac ariannol i nodi cryfderau a gwendidau'r system. | Arsylwi ymarferol ac asesu.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig. |

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

| **Lefel 2** |
|---|
| Cyflwyniad i Gynhyrchu Anifeiliaid Fferm |
| **Lefel 3** |
| Elfen LP25.1 Rhoi  triniaethau syml i dda byw<br>Elfen LP30.1 Paratoi llety da byw<br>Elfen LP30.2 Derbyn da byw i'w llety a'i werthuso<br>Elfen LP48.1 Hyrwyddo a chynnal iechyd a lles da byw |
| Deall a Hybu Iechyd Anifeiliaid |
| Deall Bridio a Maeth Da Byw |

## Adnoddau hanfodol

Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad i yr sugno a system fagu/gorffennu gwartheg eidion gyda chyfleusterau a chyfarpar priodol ar gyfer trin yn ddiogel. Bydd angen hefyd iddynt gael mynediad i systemau cofnodi fferm a gwybodaeth berthnasol a ddefnyddir ar gyfer cofnodi, monitro a dadansoddi perfformiad anifeiliaid.

## Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar sut mae mentrau gwartheg eidion yn gweithredu a dylai'r dysgwyr gael mynediad i fentrau masnachol perthnasol. Gallai hyn gynnwys fferm y ganolfan ei hun ond dylai hefyd, lle y bo'n bosibl, gynnwys profiad gwaith ar fferm, marchnadoedd lleol, cysylltiadau diwydiannol perthnasol megis lladd-dai, canolfannau bridio, melinau porthi, sioeau cenedlaethol megis digwyddiad gwartheg eidion blynyddol, a ffermydd lleol eraill. Bydd profiad a chyflogadwyedd y dysgwyr yn cael eu gwella os byddant yn cyflawni Hyfforddiant y Profion Hyfedredd Cenedlaethol, er enghraifft Trin Fforch Godi Telesgopig, Trin â Llaw yn ddiogel neu Ddefnydd o Feddyginiaeth Filfeddygol.

## Darllen dangosol i ddysgwyr

### Gwerslyfrau


Allen D – *Planned Beef Production and Marketing, 3ydd Argraffiad* (Blackwell Science, 1990) ISBN 0632026111

Allen D – *Rationing Beef Cattle* (Chalcombe Publications, 2001) ISBN 0 948617 446

Ball P a Peters A – *Reproduction in Cattle, 3ydd Argraffiad* (Blackwell Publishing, 2004) ISBN 1405115459

Fuller R – *Suckled Calf Production* (Chalcombe Publications, 1998) ISBN 0 948617 40 3

Hulsen J a Swormink BK – *From Calf to Heifer* (Roodbont, 2006) ISBN 10: 90 75280 95 5

Nix J – *Farm Management Pocketbook, 39fed Argraffiad* (The Andersons Centre, 2009) ISBN 0954120159

Porter V – *The Field Guide to Cattle* (Voyageur Press, 2008) ISBN 13: 978 0 7603 3192 7

Soffe R a McConnell P – *The Agricultural Notebook, 20fed Argraffiad* (Blackwell Science, 2003) ISBN 0632058293

Straiton E – *Cattle Ailments* (Crowood Press, 2008) ISBN 978 1 86126 383 4

Thickett B, Mitchell D a Hallows B – *Calf Rearing* (Farming Press, 2003) ISBN 186126643X

Thomas H – *Storey's Guide to Raising Beef Cattle* (Storey Books, 2000) ISBN 1580173276

## Cyfnodolion

*Beef Farmer*

*Farm Business*

*Farmers Guardian*

*Farmers Weekly*

## Gwefannau

| | |
|---|---|
| www.bcms.gov.uk | Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain |
| www.dardni.gov.uk | Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig |
| www.defra.gov.uk | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| www.eblex.org.uk | Gweithrediaeth Cig Eidion a Chig Oen Lloegr |
| www.fawc.org.uk | Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm |
| www.mlc.org.uk | Y Comisiwn Cig a Da Byw |
| www.rpa.gov.uk | Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig |
| www.tradingstandards.gov.uk | Safonau Masnach |

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl hwn yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | ymchwilio i dystiolaeth o ystadegau cyhoeddedig a gwybodaeth gyffredinol arall |
| **Meddylwyr creadigol** | amlinellu cynhyrchiad fferm eidion |
| **Dysgwyr myfyriol** | awgrymu dulliau o wella mentrau fferm eidion |
| **Gweithwyr tîm** | ymwneud â grwpiau ymarferol  mewn sesiynau a addysgir ac mewn timau bychain mewn sefyllfa waith |
| **Hunan-reolwyr** | gweithio i derfynau amser, a rheoli eu sgiliau ymchwil a'u hamser |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | gweithio mewn tîm gan gyflawni sgiliau ymarferol fferm |

Er y nodir cyfleoedd SPDM yn yr uned hon fel rhan annatod o'r meini prawf asesu, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu amrediad o SPDM trwy fynd ati i ddysgu ac addysgu mewn amrywiol ffyrdd.

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | dadansoddi data fferm i gynnig gwelliannau i fenter eidion |
| **Meddylwyr creadigol** | awgrymu dulliau o wella mentrau fferm eidion |
| **Dysgwyr myfyriol** | cymharu a chyferbynnu eu profiad â'r hyn maent wedi'i ddysgu. |
| **Gweithwyr tîm** | gweithio fel rhan o dîm mewn sefyllfa fasnachol. |
| **Hunan-reolwyr** | trefnu eu gwaith eu hunain ac amserlen cartref o fewn amgylchedd masnachol |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | gweithio mewn tîm ar gyfer gwaith fferm fasnachol |

## Sgiliau Swyddogaethol – Lefel 2

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **TGCh – Defnyddio systemau TGCh** | |
| Dethol, rhyngweithio â systemau TGCh a'u defnyddio'n annibynnol ar gyfer tasgau cymhleth i fodloni anghenion amrywiol | cofnodi, nodi, cyfrifo a dadansoddi gwybodaeth fferm megis cyfraddau tyfu, pesgi byw dyddiol, ceisiadau pasbort electronig, dadansoddiad cost unedau |
| Defnyddio TGCh i gynllunio gwaith yn effeithiol a gwerthuso effeithiolrwydd y system TGCh a ddefnyddiwyd | |
| Rheoli storio gwybodaeth er mwyn galluogi adalw effeithlon | |
| Dilyn arferion diogelwch a diogeledd a deall yr angen amdanynt | |
| Datrys problemau | |
| **TGCh – Canfod a dethol gwybodaeth** | |
| Dethol a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth yn annibynnol ar gyfer tasg gymhleth | |
| Cael mynediad i wybodaeth seiliedig ar TGCh, chwilio amdani, ei dewis a'i defnyddio- a gwerthuso ei haddasrwydd at at y diben | |
| **TGCh – Datblygu, cyflwyno a chyfathrebu gwybodaeth** | |
| Mewnbynnu, datblygu a fformadu gwybodaeth yn annibynnol i gyd-fynd â'i hystyr a'i diben gan gynnwys:<br>• testun a thablau<br>• delweddau<br>• rhifau<br>• cofnodion | |
| Dwyn ynghyd wybodaeth i gyd-fynd â'r cynnwys a'r diben | |
| Cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'r diben a'r gynulleidfa | |
| Gwerthuso'r detholiad a'r defnydd o offer TGCh a'r cyfleusterau a ddefnyddiwyd i gyflwyno gwybodaeth | |

 © Pearson Education Limited 2019

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| Dethol a defnyddio TGCh i gyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth yn ddiogel, yn gyfrifol ac yn effeithiol gan gynnwys storio negeseuon a rhestrau cyswllt | |
| **Mathemateg** | |
| Deall problemau arferol ac anarferol mewn amrediad eang o gyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | llunio cyfrifiadau ar gyfer dognau porthiant<br>creu a llunio costau unedau cynhyrchu<br>dadansoddi a chyfrifo cyfeintiau a dwyseddau<br>cyflwyno gwybodaeth cyfrifo |
| Nodi'r sefyllfa neu'r broblem a'r dulliau mathemategol angenrheidiol i'w datrys | |
| Dethol ystod o sgiliau a'u cymhwyso i ganfod datrysiadau | |
| Defnyddio gweithdrefnau gwirio priodol a gwerthuso eu heffeithiolrwydd ar bob cam | |
| Dehongli a chyfathrebu datrysiadau i broblemau ymarferol mewn cyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | |
| Llunio casgliadau a darparu cyfiawnhad mathemategol | |
| **Iaith** | |
| Siarad a gwrando - gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau a gwneud cyflwyniadau effeithiol mewn ystod eang o gyd-destunau | cyflwyno gwybodaeth a ymchwiliwyd o'u harsylwadau eu hunain a deunyddiau cyhoeddedig mewn ffyrdd gwahanol<br>deall a dehongli cyfarwyddiadau a roddwyd ar gyfer tasgau amrywiol<br>cyfathrebu o fewn tîm bychan o staff medrus mewn sefyllfa fasnachol |
| Darllen - cymharu, dethol, darllen a deall testunau a'u defnyddio i gywain gwybodaeth, syniadau, dadleuon a safbwyntiau | |
| Ysgrifennu - ysgrifennu dogfennau, gan gynnwys darnau ysgrifenedig estynedig, cyfathrebu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau, yn effeithiol ac yn berswadiol | |